



Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a rôl gweithwyr chwarae

Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnig cyflwyniad i Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru ac mae'n archwilio rolau'r proffesiwn gwaith chwarae wrth helpu i sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer chwarae plant. Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio gwaith chwarae fel 'proffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae oedolion yn cefnogi plant wrth iddynt chwarae ond nid canlyniadau rhagnodedig o ran addysg neu ofal yw symbyliad y chwarae hwnnw' (Llywodraeth Cymru, 2014, td. 39).

Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu'n benodol er cefnogi hawl plant i chwarae pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2012.

Mae rhan gyntaf y ddyletswydd hon yn mynnu bod pob awdurdod lleol yng Nghymru'n cynnal asesiad, bob tair blynedd, i fesur faint o gyfleoedd sydd i blant chwarae a sut y mae gwaith pob awdurdod lleol yn dylanwadu ar amser, lle a chaniatâd plant i chwarae.

Yna, yn seiliedig ar ganfyddiadau eu hasesiadau, mae ail ran y ddyletswydd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gweithredu i sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer chwarae. Mae hyn yn cynnwys gwarchod a chynnal y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes yn ogystal â'u gwella 'i'r graddau y bo hynny'n ymarferol' (Llywodraeth Cymru, 2014, td. 5).

Nod cyffredinol y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yw 'creu Cymru sy'n croesawu cyfleoedd chwarae a chynnig cyfleoedd ardderchog i'n plant chwarae' (Llywodraeth Cymru, 2014, td. 6). Mae'n codi cwestiynau pwysig: Beth sy'n ddigonol yn nhermau chwarae? Sut allwn ni ddysgu os yw plant yn cael digon? A beth allwn ni ei wneud i sicrhau eu bod?

Wrth feddwl am ddigonolrwydd chwarae, mae'n helpu i feddwl am chwarae fel y modd y bydd plant yn mynegi eu hunain ac yn profi'r byd o'u hamgylch. Mae plant yn chwarae ac mae ganddynt ysfa naturiol i chwarae, sy'n golygu y byddant yn chwarae ym mha le bynnag a phryd bynnag y gallant (Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 2013). Fodd bynnag, fel y mae Llywodraeth Cymru (2014) yn cydnabod, mae ystod eang o ffactorau all gyfyngu ar allu plant i ganfod amser a lle i chwarae.



Cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd

Mae'n amlwg nad yw'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ymwneud â gwaith chwarae'n unig neu hyd yn oed ddarpariaeth chwarae. Yn hytrach, mae'n ymwneud â meithrin amodau mwy ffafriol ar gyfer chwarae trwy bob agwedd o fywydau plant (sef, yn y pen draw, yr hyn y mae gwaith chwarae'n ymwneud ag e' hefyd). Mae Lester a Russell (2013, 2014) yn awgrymu bod y broses o asesu a sicrhau digonolrwydd chwarae'n ddibynnol ar 'gyfrif-oldeb' ac 'atebol-rwydd' oedolion:

- Cyfrif-oldeb – ein gallu i gyfrif am (dynodi) y ffyrdd y byddwn yn effeithio, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ar amser a lle plant i chwarae
- Atebol-rwydd – ein gallu i wella ein hymatebion tuag at blant a'u chwarae.

Er nad yw'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gosod gofyn ar awdurdodau lleol i ddarparu lefel benodol o ddarpariaeth gwaith chwarae, mae'r cyfarwyddyd statudol yn cydnabod rôl a gwerth y proffesiwn ac mae'n mynnu y dylai Asesiadau Digonolrwydd Chwarae gymryd i ystyriaeth i ba raddau y mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn ddigonol 'i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd' (Llywodraeth Cymru, 2014, td. 23). O ganlyniad, mae'r broses asesu'n cynnwys cyfrif am y ffyrdd y mae gwaith chwarae'n cyfrannu at sicrhau digonolrwydd, gan gynhyrchu tystiolaeth am yr hyn y mae gweithwyr chwarae'n ei wneud i helpu. Yn ogystal, efallai y gallai'r asesiadau hyn ddatgelu ffyrdd y gallai gwaith chwarae ddatblygu ymhellach er mwyn ymateb yn well i hawl plant i chwarae.

Ymchwil gyda phlant

Elfen allweddol o asesiadau digonolrwydd chwarae awdurdodau lleol yw cynnal ymchwil gyda phlant a'u gofawyr sy'n archwilio realiti eu profiadau o ddydd i ddydd a'r ffyrdd y caiff mynediad i chwarae ei gefnogi neu ei gyfyngu gan ddyluniad amgylcheddau ffisegol a gweithredoedd ac agweddau pobl eraill sydd ynddynt. Mae'r broses hon, allai gael ei chefnogi gan weithwyr chwarae, yn datgelu nifer o faterion sy'n dylanwadu ar allu plant i ganfod amser a lle i chwarae – y gellid mynd i'r afael â rhai ohonynt orau ar lefel cymdogaeth ac eraill ar lefel llywodraeth leol neu genedlaethol ond sydd i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd.



Er enghraifft, gwyddom o waith ymchwil gyda phlant bod eu hawydd i chwarae'r tu allan a hyder rhieni i ganiatáu iddynt wneud hynny'n dibynnu ar argaeledd plant eraill i chwarae gyda nhw, nifer ac amrywiaeth y manau i chwarae'n agos i'w cartrefi ac ymdeimlad pobl o ddiogelwch cymunedol. Pan fo amgylcheddau'n teimlo'n llai diogel, mae plant yn llai tebygol o dderbyn caniatâd i fynd allan i chwarae. Mae trwch a chyflymder traffig a pha mor dda y mae plant a rhieni'n adnabod pobl eraill yn eu cymunedau felly'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfleoedd plant i chwarae. Mae i ba raddau y bydd y materion hyn ac eraill yn effeithio ar chwarae plant yn amrywio ar gyfer gwahanol bobl ac ar draws gwahanol gymunedau.

Felly, mae cyfrif-oldeb oedolion yn dibynnu ar ymchwil tralleol gyda phlant – gan gydnabod bod gan blant wybodaeth fanwl am eu hamgylcheddau lleol, y maent yn eu profi'n wahanol i oedolion. Gall y wybodaeth a gynhyrchir helpu oedolion i ailfeddlu eu hatebol-rwydd torfol tuag at blant, gan ddatgelu ffyrdd y gellir gwneud pethau'n wahanol.



Rôl oedolion

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gofyn i oedolion dalu mwy o sylw i'r lluo o faterion sy'n effeithio ar fywydau plant ac i ystyried sut y gellid newid y ffyrdd y byddwn yn gwneud pethau er mwyn cefnogi eu hawl i chwarae'n well. Mae'n codi cwestiynau pellach am y ffyrdd y byddwn ni, fel cymdeithas, yn meddwl am blant a'u plentyndod, sut y byddwn yn cynllunio ar gyfer a dylunio ein cymdogaethau, addysgu a gofalu am ein plant, yr agwedd a fabwysiedir tuag at berthnasau oedolion-plant, yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrth rieni a sut y byddwn yn darparu ar gyfer chwarae.

Yn y pen draw, mae gan oedolion gyfrifoldeb i'w gwneud hi'n haws i blant ganfod amser a lle i chwarae. Mae hyn yn cynnwys helpu oedolion eraill i deimlo'n hyderus wrth ganiatáu ac annog plant i chwarae. Fodd bynnag, mae hyn yn debyg o alw am newid sylweddol mewn diwylliant mewn cymdogaethau lleol, gan wella ymdeimlad pobl o gymuned a diogelwch, ac mewn sefydliadau y mae oedolion yn gweithio iddynt, gan eu galluogi i fabwysiadu agwedd mwy cefnogol ac ystyrlon tuag at chwarae plant.

Bydd cyflawni a chynnal y newidiadau hyn yn galw am gyfranogiad llawer o bobl y tu hwnt i waith chwarae sydd, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys rhieni a gofaluwyr, trigolion eraill sy'n oedolion, gwleidyddion, llunwyr polisïau, a'r

bobl hynny sydd â galwedigaethau mewn meysydd fel cynllunio, tai, trafndiaeth, diogelwch cymunedol, addysg a gofal plant. Fodd bynnag, gweithwyr chwarae sy'n aml yn darparu'r sbardun grymus ac ymroddedig sydd ei angen hefyd i sicrhau'r newidiadau hyn ac sydd wrth galon rhwydwaith cynyddol o bobl sy'n gweithio i wella amodau ar gyfer chwarae.

Sut mae gweithwyr chwarae'n cefnogi digonolrwydd chwarae

Yn eu hymchwil sy'n archwilio'r modd y mae awdurdodau lleol wedi ymateb i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae Lester a Russell (2013, 2014) yn tynnu sylw at waith y daearyddwr Ash Amin a'i syniadau am yr hyn sy'n creu 'dinas dda'. Mae Amin yn dynodi pedair 'cofrestr' (gaiff, efallai, eu deall yn haws fel ffyrdd o weithio) y mae Lester a Russell yn awgrymu y gellir eu cyfuno i feithrin gwlad chwarae-gyfeillgar a chreu amgylcheddau sy'n fwy 'agored i bresenoldeb chwaraeys plant' (Lester a Russell, 2014, td. 4). Disgrifir y pedair cofrestr yn gryno isod:

- **Atgyweirio a chynnal a chadw** – gwarchod a chynnal yr amserau a'r manau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer chwarae plant, yn ogystal ag 'atgyweirio' y modd y mae pethau'n gweithio er mwyn gwella mynediad plant i amser a lle i chwarae.
- **Cyberthynas** – talu sylw i'r modd y mae oedolion yn meddwl am, yn gofalu am ac yn rhyngweithio gyda phlant, gan annog oedolion i adnabod a

gwerthfawrogi'r ffyrdd y mae plant yn wahanol iddyn nhw a sut y gallai eu gweithredoedd effeithio ar allu plant i chwarae.

- **Hawliau** – parchu hawl plant i chwarae a chydabod bod cynnal yr hawl hon yn hanfodol ar gyfer cynnal hawliau eraill sy'n gysylltiedig â rhyddid barn, rhyddid mynegiant, rhyddid i gymdeithasu ac ymgynull yn heddychlon (casglu ynghyd) a rhyddid i gyfranogi yn y fro gyhoeddus.
- **Ail-gyfareddu** – edrych ar sut y mae arferion, trefn feunyddiol ac agweddau pobl un ai'n cefnogi neu'n cyfyngu ar chwarae, yna gweithredu i darfu (yn dawel) ar y modd y mae pethau'n gweithio fel arfer er mwyn datgelu sut y gellid gwneud amgylcheddau plant yn fwy ffafriol i chwarae.

Gan ddefnyddio'r fframwaith hon ac esiamplau o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol,

mae'n bosibl dynodi rhai o'r ffyrdd y gall gwaith chwarae gyfrannu ar lefel llywodraeth leol, gan weithio ar draws meysydd polisi, a hefyd yn weithredol mewn cymunedau lleol i feithrin amodau mwy ffafriol ar gyfer chwarae.

Er mwyn eu gwneud yn haws i'w deall, disgrifir y ddwy agwedd hyn o waith chwarae fel rhai 'anuniongyrchol' ac 'uniongyrchol'.

Mae **gweithio anuniongyrchol** yn cyfeirio at gamau gweithredu a gymerir 'y tu ôl i'r llenni' (yn aml o fewn sefydliadau) gan fod o fudd anuniongyrchol i chwarae plant trwy wella'r ffyrdd y bydd oedolion yn ei gefnogi.

Mae **gweithio uniongyrchol** yn cyfeirio at gamau gweithredu a gymerir gyda phlant, eu gofalwyr a thrigolion eraill i gyd-greu cyfleoedd ar gyfer chwarae mewn cymunedau lleol.



Prif ffocws	<p>Anuniongyrchol – meithrin diwylliant o gefnogaeth ar gyfer chwarae mewn sefydliadau.</p> <p>Uniongyrchol – meithrin diwylliant o chwarae mewn cymunedau lleol.</p>
<p>Atgyweirio a chynnal a chadw</p>	<p>Anuniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwain ar gwblhau Aseidiadau Digonolrwydd Chwarae a chyflawni cynlluniau gweithredu cysylltiedig • Gwella polisiâu a gweithdrefnau rheoli risg fel eu bod yn cefnogi yn hytrach na chyfyngu ar chwarae • Cynnal ffocws ar chwarae, gan sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i chwarae'n ystod cynllunio gwasanaethau a manau cyhoeddus • Sicrhau ariannu ar gyfer darpariaeth chwarae a thystio i effaith ymyriadau chwarae yn erbyn blaenoriaethau ariannu eraill • Trafod caniatâd i blant ddefnyddio manau gwahanol i chwarae, er enghraifft tiroedd ysgol y tu allan i oriau addysgu. <p>Uniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hwyluso sesiynau chwarae rheolaidd wedi eu staffio yn agos i gartrefi pobl, gan annog plant i chwarae allan gyda'i gilydd • Cadw llygad ar y plant, ac o ganlyniad dawelu meddwl a lleihau straen ar rieni • Normaleiddio chwarae'r tu allan a sicrhau ei fod yn rhan o drefn feunyddiol pobl • Datblygu gwybodaeth leol am ble y mae plant yn chwarae a gweithio i warchod y manau hynny • Helpu i lanhau a chynnal a chadw manau cymunedol ble gall plant chwarae.
<p>Cydberthynas</p>	<p>Anuniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dynodi a chreu perthnasau gydag oedolion all wneud gwahaniaeth mewn cymunedau lleol, gan eu hannog i weithredu er cefnogi chwarae • Datblygu partneriaethau gyda phobl mewn adrannau/sefydliadau eraill y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant • Hwyluso sgysiau am chwarae er mwyn galluogi oedolion sy'n gweithio mewn gwahanol broffesiynau i ddatblygu iaith a dealltwriaeth gyffredin ynghylch sut i'w gefnogi • Sefydlu a hwyluso rhwydweithiau strategol, gan alluogi pobl i weithio gyda'i gilydd er cefnogi chwarae plant • Darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i wella ymatebion oedolion a'u cefnogaeth i chwarae. <p>Uniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod yn bresenoldeb cyson, yn wyneb cyfeillgar, mewn cymunedau lleol • Dod i adnabod a chael ein hadnabod gan y plant, y rhieni a thrigolion eraill • Siarad gyda thrigolion sy'n oedolion am bwysigrwydd chwarae a'u hannog i ailfeddlw unrhyw ofnau neu bryderon allai fod ganddynt am neu ynghylch y plant • Helpu pobl i ymglyfarwyddo â'i gilydd trwy hwyluso digwyddiadau cymunedol.

<p>Hawliau</p>	<p>Anuniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eiriol dros hawl plant i chwarae ar lefel strategol • Hwyluso ymchwil gyda phlant er mwyn casglu eu barn ar eu cyfleoedd i chwarae • Dynodi grwpiau o blant neu gymunedau sy'n profi diffyg digonolrwydd chwarae a chymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn • Sicrhau bod sylw'n cael ei dalu i hawl plant i chwarae trwy brosesau asesu effaith • Herio arferion sefydliadol sy'n cyfyngu'n ddiangen ar allu plant i chwarae. <p>Uniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eiriol dros hawl plant i chwarae ar lefel leol • Dynodi a darparu cymorth ychwanegol i blant unigol sy'n profi rhwystrau eithriadol i gael mynediad i'w hawl i chwarae • Helpu i fynd i'r afael â phroblemau eraill ym mywydau plant allai fod yn eu hatal rhag gallu chwarae • Galluogi plant i gyfranogi mewn prosesau llunio penderfyniadau'n lleol sy'n effeithio ar eu cyfleoedd i chwarae, er enghraifft datblygiadau tai.
<p>Ail-gyfareddu</p>	<p>Anuniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arddangos yr hyn sy'n bosibl, gweithio gyda phartneriaid i roi tro ar wahanol agweddau tuag at gefnogi chwarae • Gweithio gyda rhanddeiliaid cymunedol i ddatblygu cynlluniau i gefnogi chwarae plant • Rhannu canfyddiadau gwaith ymchwil sy'n cynnwys plant gyda gwleidyddion a llunwyr polisïau • Trefnu digwyddiadau chwarae ar raddfa fawr a datblygu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i hybu hawl plant i chwarae • Gosod arwyddion a symbolau sy'n hybu ac annog yn hytrach na chyfyngu ar chwarae. <p>Uniongyrchol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arbrofion graddfa fechan sy'n newid y ffordd y bydd pobl yn symud trwy ac yn defnyddio'r gofod • Gweithio gyda phlant i greu manau diddorol a chyffrous ble y gallant chwarae • Cymryd stryd breswyl trosodd am gyfnod byr, gan ganiatáu i chwarae plant gael blaenoriaeth dros symudiad cerbydau modur • Gadael tystiolaeth bod plant wedi bod yn chwarae (fel darn o sialc), gan helpu i gynyddu ymhellach natur weladwy plant ac atgoffa pobl i fod yn ystyriol o'u bodolaeth • Cyflwyno rhannau rhydd (deunyddiau jync) ac arddull gwaith chwarae i amser chwarae mewn ysgolion.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn o'r dyletswyddau a gyflawnir gan weithwyr chwarae o bell ffordd, ac nid yw ychwaith yn disgrifio'r arferion gweithio medrus iawn y bydd gweithwyr chwarae'n eu defnyddio wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant sy'n chwarae, ond mae'n dechrau dangos ehangder y gwaith a ymgymerir gan y proffesiwn gwaith chwarae. Efallai y bydd gweithwyr chwarae unigol neu dimau o staff yn gyfrifol am y rolau anuniongyrchol ac uniongyrchol hyn neu efallai y'i cyflogir i ganolbwyntio ar un yn fwy na'r llall. Sut bynnag, mae'r ddau fath o weithio'n angenrheidiol er mwyn creu'r newid mewn diwylliant a ddymunir, fydd yn cymryd amser, dyfalbarhad a chyfres benodol o sgiliau (Long, 2017).

Mae'n bwysig hefyd cydnabod bod gweithwyr chwarae sy'n cyflawni'r rolau anuniongyrchol ac uniongyrchol hyn, tra'n gyfrifol am wahanol agweddau o waith, yn cael eu harwain gan yr un egwyddorion o weithio gydag ac ar ran plant (Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae [PPSG], 2005). Mae hyn yn cynnwys:

- Deall ac eiriol dros werth hanfodol chwarae fel proses
- Pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant yn mwynhau eu plentyndod yn ogystal â datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r doniau fydd yn ddefnyddiol iddynt, fel plant ac fel oedolion
- Cydbwysu'r angen i warchod plant rhag niwed difrifol gyda buddiannau eu cefnogi i gymryd risg yn ystod eu chwarae
- Creu amgylcheddau sy'n gyfranogol a chynhwysol ac sy'n darparu ar gyfer ystod gynhwysfawr o gyfleoedd cyfoethog i chwarae
- Sicrhau bod gweithwyr chwarae, wrth ymwneud â datblygiadau polisi a'r gweithlu, yn cadw hawl plant i chwarae wrth galon eu cyfranogiad.

Casgliad

Yng nghyd-destun y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, efallai y gellid deall rôl gwaith chwarae orau fel agwedd sy'n canolbwyntio ar chwarae tuag at ddatblygu cymunedol ble mai mwy o chwarae, a'i holl fuddiannau cysylltiedig, fydd y deiliant pennaf (Tawil a Barclay, 2018). Mae gweithwyr chwarae'n gweithredu o fewn cymdogaethau lleol, mudiadau cymunedol ac ar draws llywodraeth leol, gan weithio gyda phlant, gofalwyr, rhanddeiliaid lleol eraill, ymarferwyr, llunwyr polisïau a gwleidyddion i wella a gwarchod amodau ar gyfer chwarae.

Mae gweithwyr chwarae:

- yn cefnogi datblygiad agweddau cadarnhaol tuag at blant
- yn dynodi cyfleoedd i ddatblygu a/neu adennill amser a lle i chwarae
- yn eiriol dros agwedd fwy chwareus tuag at weithio gydag ac ar ran plant
- yn gwneud i aelodau'r gymuned deimlo'n fwy diogel wrth adael i blant chwarae'r tu allan (Lester, 2016; Long, 2017).

Trwy weithio yn y modd hwn, mae gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr ar ran plant, gan weithredu fel canolwr rhwng agendâu sy'n rhoi oedolion neu blant yn gyntaf er mwyn annog dosbarthiad tecach o adnoddau cymunedol. Ar adegau, gallai hyn olygu amddiffyn hawliau plant, cynrychioli eu barn ac atgoffa oedolion bod rhaid i blant gael mynediad hefyd i amser a lle yn y fro gyhoeddus. Ble fo gweithwyr chwarae'n mabwysiadu'r math yma o agwedd datblygu cymunedol, maent yn gallu helpu i feithrin diwylliant o chwarae ble mae barn oedolion am chwarae'n agosach i farn y plant ac, o ganlyniad, ceir mwy o gefnogaeth i chwarae plant trwy ac ar draws cymunedau.

Er nad yw'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gwarantu gwasanaethau gwaith chwarae'n awtomatig, mae'n bendant yn sicrhau 'sedd ddilys wrth y bwrdd' i weithwyr chwarae. At hynny, trwy ymgysylltu medrus a chynhyrchu tystiolaeth o waith ymchwil gyda phlant a'u gofalwyr, mae gwaith chwarae'n ymddangos fel pe bae'n ateb rhesymegol i nifer o'r cwestiynau a godir gan y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.





Cyfeiriadau

Lester, S. (2016) *The Value of Playwork in Manchester*, Stuart Lester/Playwork North West.

Lester, S. a Russell, W. (2010) *Children's Right to Play: An Examination of the Importance of Play in the Lives of Children Worldwide*, Working Papers in Early Childhood Development. Yr Hag: Sefydliad Bernard van Leer.

Lester, S. a Russell, W. (2013) *Leopard skin wellies, a top hat and a vacuum cleaner hose: An analysis of Wales' Play Sufficiency Assessment Duty*, Swydd Gaerloyw: Prifysgol Swydd Gaerloyw a Chaerdydd: Chwarae Cymru.

Lester, S. a Russell, W.K. (2014) *Towards Securing Sufficient Play Opportunities: A short study into the preparation undertaken for the commencement of the second part of the Welsh Government's Play Sufficiency Duty to secure sufficient play opportunities*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

Long, A. (2017) It's not just about 'more': A research project exploring satisfaction with opportunities to play, for children in two Welsh neighbouring communities, *International Journal of Play* 6(1), 24-39.

Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae (PPSG) (2005) *Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae*, gaiff eu dal mewn ymddiriedolaeth fel brocer teg ar ran y proffesiwn gan Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae.

Tawil, B. a Barclay, M. (2018) Play Sufficiency as an Organising Principle of Community Development, *Radical Community Work Journal*, 3(2).

Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) *General comment No. 17 on the right of the child to rest, leisure, play, recreational activities, cultural life and the arts (art. 31)*, Genefa: Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.



Awduron: Mike Barclay a Ben Tawil

www.ludicology.com

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.